03.02.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Brett Johns yn cwffio dros yr iaith

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050. Yn y rhaglen ddogfen tafod-yn-y-foch **Pa Fath o Bobl – Un Mewn Miliwn**, bydd Garmon ab Ion yn holi ydi'r strategaeth yn debygol o lwyddo?

Nid yn unig mae Garmon yn credu nad oes miliwn o bobl yn byw yng Nghymru, dyw e ddim yn credu bod Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i ddenu'r siaradwyr hyn i ennill brwydr yr iaith, a'u bod angen edrych 'y tu allan i'r bocs'. Yn ôl ef, mae tri pheth yn sicr mewn bywyd, sef y tair "C" - Cwffio, Caru, Canu ag os gellir cyflawni'r tri peth elfennol yma trwy'r Gymraeg mae'r frwydr ar ei hennill!

Un sydd wedi hen arfer â chwffio yw'r ymladdwr Brett Johns o Bontarddulais. Mae Garmon yn mynd am y gorllewin i gwrdd â Brett. Er bod Bret yn falch iawn o'i wreiddiau a'i Gymreictod, mae ei berthynas gyda'r Gymraeg wedi bod yn un cymysglyd:

"Roedd mam yn siarad Saesneg, ond wnaeth hi anfon fi a 'mrawd i ysgol Gymraeg. Ni oedd yr unig siaradwyr Cymraeg yn y teulu" meddai Brett.

"Pan oeddwn i mas gyda'n ffrindiau sy'n siarad Cymraeg, do'n i dal ddim yn siarad lot ohono fe. Yn edrych nôl nawr, hoffwn i siarad fwy o Gymraeg wrth gwrs, ond pan o'n i'n ifanc doeddwn i ddim."

Ac yn ôl Brett, yr hyn sy'n allweddol i ddefnyddio'r iaith mewn bywyd bob dydd yw cael digon o hyder i wneud hynny:

"Yn y de, ac yn enwedig Abertawe, 'sdim lot o hyder i siarad Cymraeg, a dwi'n meddwl bod pawb yr un peth yn ysgol - dyw e ddim yn cŵl iawn i'w siarad. Do'n i ddim wedi siarad gair o Gymraeg am 2 flynedd, ac wedyn o'n i'n ffili cofio gair ohono. Rhoddodd e ofn i fi. Felly nawr, pan mae gen i unrhyw siawns i siarad Cymraeg, dwi'n mynd amdani ac mae gen i hyder i'w siarad."

Parhau i fod yn amheus o ymdrechion y Llywodraeth mae Garmon yn dilyn ei sgwrs â Brett, ac mae'n tybio ein bod ni fel cenedl weithiau'n medru bod yn elyn i ni'n hunain:

"Roedd y profiad o gwrdd â Brett yn un diddorol a chalonogol" meddai Garmon. "Mae'n amlwg fod y boi 'ma wedi cwffio dros y Gymraeg; cwffio i ailgydio yn y Gymraeg a chwffio i roi'r iaith ar lwyfan ryngwladol. Tase rhywun fel Brett yn dweud wrtha i i siarad Cymraeg, baswn i lot fwy parod, achos bod e jest yn berson normal - dyw e ddim yn wleidydd i dossier mae'r Llywodraeth yn ei gynhyrchu.

"Fi'n credu bod e'n gyfle euraidd i'r Llywodraeth gysylltu efo rhywun fel Brett er mwyn hybu'r iaith. Y gair sy'n cael ei ailadrodd lot yw 'hyder'. Ein gelyn penna' ni yng Nghymru yw ni'n hun , ac mae'n swnio'n cliché iawn ond mae'r plismyn iaith 'ma'n mynd allan i gywiro pobl ddim mewn

ffordd cadarnhaol ond mae angen mireinio iaith pobl mewn modd lot mwy cadarnhaol yn hytrach na jest marcio eu tweets nhw fel byddai athro'n marcio gwaith plentyn."

Yn y rhaglen, cawn hefyd gwrdd ag unigolion sy'n cynrychioli'r 'caru' a 'canu' ym maniffesto unigryw Garmon. Mae'r fodel *glamour* Lowri Rose o Gaerdydd, gyda dros 525,000 o ddilynwyr TikTok ac yn boblogaidd ar lwyfan Onlyfans. Cafodd addysg Gymraeg yng Nghaerdydd, ond mae hi wedi colli hyder i siarad yr iaith.

Ac o ran y canu…cawn glywed gan fand Bandicoot o Abertawe sydd wedi dechrau ysgrifennu caneuon yn y Gymraeg. Ar ôl symud dros y ffin i fynd i'r Brifysgol, cafodd aelodau'r band epiffani diwylliannol a gweld eisiau Cymru a'r iaith.

**Pa Fath o Bobl – Un Mewn Miliwn**
**Nos Wener 18 Chwefror 9.00, S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

03.02.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Brett John's fight for the language

The Welsh Government's ambition is to see one million people able to enjoy speaking and using the Welsh Language by 2050. In a tongue-in-cheek documentary **Pa Fath o Bobl – Un Mewn Miliwn** (What Kind of People – One in a Million), Garmon ab Ion asks if their strategy is likely to succeed?

Not only does Garmon believe there aren't a million people living in Wales, he doesn't think the Welsh Government is doing enough to attract these speakers to win the battle of the language, and that they need to think outside of the box. According to him, there are definitely three things in life, namely the three 'Cs' – Cwffio (fighting), Caru (loving) and Canu (singing), and if these three basic things can be achieved through the medium of Welsh, the battle is won!

One who has had his fair share of fights is professional mixed martial artist Brett Johns from Pontarddulais. Garmon heads west to meet Brett, who, even though is very proud of his Welsh heritage, his relationship with the language has been mixed:

"My mother spoke English but she sent my brother and I to a Welsh school. We were the only Welsh speakers in the family," says Brett. "When I was out with our Welsh speaking friends, I still didn't speak much of it. Looking back now, of course I wish I could speak more of the language, but when I was young I didn't."

According to Brett, the key to using the language day to day is having enough confidence to do so:

"In the south, and especially Swansea, people don't have much confidence to speak Welsh, and I think everyone is the same at school – it's not very cool to speak it. I hadn't spoken a word of Welsh for two years, and then I couldn't remember a word of it. It scared me. So now, when I have any chance to speak the language, I just go for it, and have the confidence to use it."

Remaining sceptical of the Government's efforts following his conversation with Brett, Garmon concludes that we as a nation can sometimes be our own enemy:

"The experience of meeting Brett was interesting and encouraging," says Garmon. "It's clear that this guy is fighting for the Welsh language, and fighting to place the language on an international stage. If someone like Brett encouraged me to speak Welsh, I'd be a lot more willing because he's just a normal person – he's not a spokesperson on behalf of a Government's dossier.

"I think it's a golden opportunity for the Government to contact someone like Brett to promote the language. The word that's repeated a lot is 'confidence'. We are very often our own worst enemy in Wales, and it sounds very cliché but the language police who go about correcting people and not in a positive way need to be more constructive and encouraging, rather than just marking their tweets as a teacher would mark a child's work."

In the programme we also meet individuals who represent the 'love' and 'sing' categories in Garmon's unique manifesto. Cardiff glamour model Lowri Rose has over 525,000 TikTok followers and is popular on the Onlyfans platform. She received Welsh-medium education in Cardiff, but has lost confidence in speaking the language.

And as for the singing…we'll hear from Swansea band Bandicoot, who have started experimenting by writing songs in Welsh. After crossing the border to attend university, the band members had a cultural epiphany and missed Wales and the language.

**Pa Fath o Bobl – Un Mewn Miliwn**
**Friday 18 February 9.00, S4C**
**English and Welsh subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom production for S4C**